Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Brynsiencyn
# Brynsiencyn
# Llanfairpwll
# Ynys Mon
# LL61 6HZ

## Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/08/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Brynsiencyn ger Llanfairpwll yn sir Fôn yn gwasanaethu’r pentref a’r ardal wledig gyfagos. Mae’r ysgol yn derbyn disgyblion ar ddechrau’r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Ar hyn o bryd, mae 49 o ddisgyblion amser llawn a naw disgybl rhan amser yn yr ysgol. Addysgir y disgyblion gan ddau athro amser llawn ac un rhan amser mewn tri dosbarth yn y bore a dau yn y prynhawn.

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i’r sector uwchradd. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd David Hughes ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Daw 85% o’r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Nid oes yr un disgybl o gefndir ethnig ac mae’r canran hyn yn is na chanran yr awdurdod lleol.

Mae o gwmpas traean o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae hyn yn uwch na’r canran sirol a chenedlaethol. Mae’r ysgol yn datgan nad yw’r ardal lle y’i lleolir yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae tua 18% o’r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion addysg ychwanegol ac mae hyn yn is na’r ffigwr cenedlaethol (21.2%). Nid oes datganiad o anghenion ychwanegol gan yr un disgybl ac ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae newid llwyr wedi bod yn staffio’r ysgol ers yr arolygiad diwethaf. Apwyntiwyd y pennaeth i’w swydd barhaol ym mis Medi 2010 wedi tair blynedd o ofalu tros dro am yr ysgol. Ym mis Medi 2011 yr apwyntiwyd yr athrawes Cyfnod Sylfaen.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Brynsiencyn yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,941 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £6,563 a'r lleiafswm yw £2,636. Mae Ysgol Gynradd Brynsiencyn yn safle 15fed o'r 50 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd mae:

- perfformiad disgyblion 7 ac 11 oed yn dangos cynnydd da yn ystod y pedair mlynedd ddiwethaf;
- yr ysgol yn cymharu'n ffafriol iawn wedi'i meincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y ddau gyfnod allweddol;
- canran y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad wedi cynyddu ac mae'r ysgol bellach yn perfformio'n well na'r teulu a Chymru;
- perfformiad y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn well na'u perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ac yn dangos cynnydd da yn eu dysgu tra yn yr ysgol; ac
- mae canlyniadau disgyblion Blwyddyn 6 yn uwch na'r teulu am y mwyafrif o'r pedair mlynedd diwethaf.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn ddigonol oherwydd:

Er bod:

- y pennaeth wedi llwyddo i adeiladu tîm sy'n cydweithio'n dda;
- gweledigaeth y pennaeth wedi arwain at godi safonau a gwella'r ddarpariaeth tros y ddwy flynedd ddiwethaf;
- ethos gofalgar, hapus wedi ei greu;
- perthynas dda gyda'r rhieni a defnydd da o'r gymuned; ac
- y llwyddwyd i adennill hyder rhieni yn rheolaeth a darpariaeth yr ysgol.

nid:

- yw'r broses hunanarfarnu wedi datblygu'n ddigonol ac nid yw'r cynllun datblygu yn cynnwys targedau meintiol i alluogi rheolwyr i fesur cynnydd;
- yw rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yr ysgol wedi datblygu'n llawn ac nid yw rheolwyr wedi sicrhau bod yr holl ofynion statudol yn cael eu cwrdd; ac
- nid oes cynnydd digonol yn nau o'r pum argymhelliad yn yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

Er mwyn gwella dylai'r ysgol:

A1 sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyrraedd y lefelau uwch, yn arbennig yn y Cyfnod Sylfaen;

A2 lleihau'r gagendor rhwng merched a bechgyn;

A3 datblygu rôl monitro y cydlynwyr a sicrhau bod y broses a'r adroddiadau yn fwy arfarnol;

A4 gwneud defnydd o dargedau meintiol yn y cynllun datblygu ysgol fel bo modd i'r corff llywodraethol fedru dal yr ysgol i gyfrif yn well;

A5 datblygu rôl y llywodraethwyr fel cyfaill beirniadol ac ymateb yn llawn i'r gofynion statudol parthed adroddiad blynyddol i rieni a phrosbectws yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae niferoedd bychain o ddisgyblion diwedd cyfnodau allweddol yn golygu bod angen gofal wrth ddehongli data. Mae hyn yn arbennig o wir wrth gymharu cyflawniad disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim gyda'r gweddill ac am yr un rheswm, gyflawniad y bechgyn gyda'r merched.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn canolbwyntio'n dda yn y gwersi ac yn galw i gof eu dysgu blaenorol yn effeithiol. Maent yn cydweithio'n dda ac yn ymateb yn bwrpasol i'r tasgau. Defnyddiant eu medrau ymchwiliol yn effeithiol i gaffael gwybodaeth newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a gallant weithio'n effeithiol mewn parau, grŵp neu fel unigolyn i ymateb i dasg yn dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Erbyn diwedd Cyfnod Sylfaen mae pawb yn trin a thrafod yn dda iawn yn y Gymraeg ar draws ystod o bynciau, gan ddefnyddio geirfa eang. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n addas i'w hoed a'u gallu. Mae gwaith ysgrifenedig llawer o'r disgyblion yn y Gymraeg yn dda gydag enghreifftiau o waith da ar lefel uwch.

Mae medrau llafar disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda a defnyddiant iaith naturiol graenus mewn trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol. Mae medrau llafar Saesneg bron pob un disgybl hefyd yn datblygu'n dda a gallant drafod a mynegi barn yn eglur. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn medru darllen a deall yn ystyrlon gan ddefnyddio mynegiant da yn y ddwy iaith. Mae'r canran sy'n gadael yr ysgol i fynd i'r ysgol uwchradd ag oed darllen yn fwy na chwe mis yn is na'u hoed yn llawer gwell na'r canran y cyfeirir ato yn adroddiad blynyddol cyfredol y prif arolygydd. Mae disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol ar draws ystod y cwricwlwm at wahanol bwrpas yn y ddwy iaith.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae cyflawniad y disgyblion bellach yn dda mewn perthynas â chyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd). Amrywiodd y canran sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd o 75% i 100% rhwng 2008 a 2011. Mae cyflawniad yng nghyfnod allweddol 2 hefyd yn dda ac mae wedi codi'n sylweddol o 50% i 100% tros yr un cyfnod. Yn gyffredinol, mae perfformiad y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn well na'u perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ac yn dangos cynnydd da mewn dysgu.

Mae canran y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad wedi cynyddu. Mae'r ysgol erbyn hyn yn perfformio'n well na'r Teulu a Chymru. Mae cynnydd pendant hefyd yn y ganran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg yn y ddau gyfnod allweddol tros bedair blynedd. Tros y cyfnod hwn mae'r ysgol wedi perfformio yn well na'r Teulu am dair allan o'r pedair blynedd.

**Lles: Da**

Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae'r holl ddisgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda.

Mae disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau amrywiol yn dda yn y tri dosbarth ac yn arbennig yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n dda ac yn annibynnol mewn parau, grwpiau a thimau i ddatrys problemau. Mae dyfalbarhad disgyblion yn dda drwy'r ysgol ac yn dda iawn yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ac maent yn trafod hyn yn dda ar lafar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu'n dda at gynllunio'r hyn y maent yn ei ddysgu.

Mae Cyngor yr ysgol yn cael cyfleoedd priodol i fynegi barn am fywyd a gwaith yr ysgol a chymryd rhan weithgar yng nghynlluniau'r ysgol. Enghraifft o hyn yw'r llwybr natur a'r cynlluniau ar gyfer datblygu gardd yr ysgol. Mae'r strwythur yn ei le o ran swyddogion, swyddogaeth a chadw cofnod. Caiff holl ddisgyblion yr ysgol gyfle i fynegi eu barn yn y blwch syniadau. Mae rôl y cyngor yn parhau i ddatblygu o ran gweithredu'n hollol annibynnol.

Mae canran presenoldeb wedi bod yn anghyson iawn dros y pum mlynedd ddiwethaf. Bellach mae'n cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio'r meysydd dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus gan ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion yn dda. Trefna'r staff ystod o brofiadau ac ymweliadau diddorol ac addas i gyfoethogi addysg y disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ddarpariaeth ar gyfer iaith a mathemateg yn dda ac ysgogol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer gwyddoniaeth yr un mor drwyadl. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn defnyddio cynlluniau ysgol gyfan yn effeithiol; ond nid yw'r cynlluniau tymor canol bob amser yn rhoi digon o arweiniad i sicrhau cysondeb a dilyniant ymhob maes.

Mae'r ysgol yn adnabod yn gynnar anghenion disgyblion sy'n debygol o dangyflawni yn y medrau. Maent yn darparu cymorth pwrpasol i godi eu safonau drwy'r ysgol.

Trwy gydweithio agos a chynllunio bwriadus, mae'r athrawon yn sicrhau bod medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r gweithgareddau a gynigir i ddisgyblion yn sicrhau cyfleoedd i adeiladu ar eu medrau a gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da. Mae'r athrawon yn modelu iaith dda wrth gyfathrebu gyda'r plant a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau llythrennedd y disgyblion. Hyrwyddir yr iaith yn dda trwy ymweliadau gan awduron amrywiol.

Trwy astudiaeth o amryw o wledydd tramor mae'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang yn datblygu'n briodol o fewn yr ysgol. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiadau cynaliadwy wedi datblygu i'r un graddau eto.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu o ansawdd da bron yn ddieithriad ar draws yr ysgol.

Defnyddia'r athrawon ystod dda o strategaethau addysgu ac mae ganddynt wybodaeth gyfredol am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn rhoi cefnogaeth dda iawn yn y Cyfnod Sylfaen i hybu dysgu plant o bob gallu.

Pan mae'r addysgu yn dda, mae disgwyliadau staff yn uchel a'r cyflwyniadau yn fywiog. Mae cyflymder y gwersi hyn yn effeithiol ac yn sicrhau diddordeb a sylw'r dysgwyr oll. Gwneir defnydd cyson o ganmoliaeth ac anogaeth ac mae hyn yn hybu ymddygiad da. Mae cwestiynu effeithiol athrawon yn annog bron pob plentyn i ddatblygu medrau meddwl da. Yn yr eithriad ble mae'r addysgu yn ddigonol, nid yw'r gweithgareddau yn cwrdd ag anghenion pob disgybl yn bwrpasol ac mae cyflymder y wers yn araf.

Trwy asesu pwrpasol mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio rhaglenni addas. Mae tracio cynnydd disgyblion yn datblygu'n dda yn yr ysgol ac yn galluogi'r athrawon i dargedu unigolion yn llwyddiannus. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen, ond nid yw cystal yng nghyfnod allweddol 2. Mae sylwadau marcio yn y Cyfnod Sylfaen ac yn y rhan fwyaf o'r pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn fanwl ac adeiladol. Mae hyn yn cyfeirio'r disgyblion i'w camau nesaf yn llwyddiannus.

Derbynia'r rhieni wybodaeth bwrpasol am gyflawniad a chynnydd eu plant mewn adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiadau hyn yn glir ac yn cynnig eglurhad ar gynnydd y disgybl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddiadau a gynigir i ddisgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn hyrwyddo byw yn iach, a lles disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y disgyblion yn dda. Mae perthynas agos rhwng yr ysgol a mudiadau yn y gymuned ac mae hyn yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn cyfrannu'n dda at eu haddysg bersonol a chymdeithasol.

Gwneir defnydd pwrpasol o asiantaethau allanol gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth iechyd, swyddog lles, seicolegwyr a'r gwasanaethau cymdeithasol. Lleolir bocs cyfrinachol gan yr Heddlu o fewn yr ysgol ac mae hyn yn cryfhau'r berthynas â'r heddlu ac yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fynegu barn a nodi eu pryderon o fewn y gymuned.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Tynnwyd sylw cadeirydd y corff llywodraethol a'r pennaeth at fater iechyd a diogelwch ar safle'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn dda. Caiff anghenion eu hadnabod yn gynnar ac mae'r cydlynydd yn darparu cefnogaeth yn ôl gofynion y cod ymarfer. Darpara'r athrawon gynlluniau addysg unigol addas ac mae'r adolygiadau cynnydd yn sicrhau mewnbwn priodol gan randdeiliaid, gan gynnwys rhieni ac asiantaethau amrywiol yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos, gynhwysol, ofalgar a chyfeillgar ac o ganlyniad mae'r disgyblion yn hapus yno. Mae'r staff yn parchu pob plentyn ac yn sicrhau cyfle cyfartal iddynt fanteisio ar amrediad llawn y ddarpariaeth addysgol. Llwydda'r holl staff i feithrin agweddau ac ymddygiad cadarnhaol ymhlith y disgyblion.

Mae'r amgylchedd dysgu o ansawdd da iawn. Ceir arddangosfeydd pwrpasol ac ysgogol sydd yn dathlu cyrhaeddiad disgyblion ac ethos cynhwysol yr ysgol.

Mae adeilad yr ysgol a'r maes chwarae eang yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r disgyblion yn elwa o ystod eang o adnoddau sy'n briodol i'w anghenion. Defnyddia'r staff a'r disgyblion yr adnoddau hyn yn dda. Mae ardaloedd dysgu awyr agored yn cael eu datblygu yn greadigol gan y staff i gynnig profiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Ers penodiad y pennaeth i'w swydd barhaol ym mis Medi 2010, crëwyd gweledigaeth effeithiol ar gyfer yr ysgol. Sicrhaodd y pennaeth ymrwymiad y llywodraethwyr a'r staff er mwyn gwireddu'r arwyddair a fathwyd "Gweithio gyda'n gilydd i symud yr ysgol ymlaen". Trwy hyn llwyddwyd i greu ymdeimlad cryf o weithredu fel tîm i ddatblygu'r ddarpariaeth ac i wella safonau. O ganlyniad mae safonau wedi codi tros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol ac maent wedi dechrau defnyddio data'n bwrpasol i fonitro perfformiad. Bellach, mae eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol o'i gymharu ag ysgolion tebyg yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim yn datblygu'n dda. Nid yw eu dealltwriaeth o safonau'r ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion y Teulu o ran lefel her wedi datblygu i'r un graddau. Oherwydd newidiadau staffio, ail drefnwyd cyfrifoldebau cwricwlaidd; felly cychwyn gweithredu'r cyfrifoldebau newydd maent. Mae'r staff yn cynnal cyfarfodydd cyson ond mae'r cofnodion yn rhy anffurfiol ac felly nid yw'r lefel o atebolrwydd yn ddigon cadarn.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac mae gan y cadeirydd ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r materion sydd angen eu datblygu. Mae rôl y corff fel cyfaill beirniadol yn dal i ddatblygu. Nid yw'r llywodraethwyr wedi cydymffurfio'n

llawn â'r gofynion statudol o ran cynnwys yr adroddiad blynyddol i rieni na phrosbectws yr ysgol. Mae dau o'r pum argymhelliad o'r arolygiad blaenorol heb eu cwblhau.

Mae'r ysgol yn gweithredu'n llwyddiannus bron pob un o'r blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol iawn ac mae'r egwyddorion yn weithredol drwy'r adran gydag adnoddau addas ac ysgogol. Mae'r arferion o ddatblygu medrau meddwl y disgyblion yn datblygu'n dda ond nid yw asesu ar gyfer dysgu wedi'i ymgorffori'r un mor gyson ar draws yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae trefniadau hunanarfarnu'r ysgol yn gymharol anaeddfed ac yn seiliedig ar gasglu tystiolaeth sy'n cynnwys yn bennaf edrych ar ddata, llyfrau'r disgyblion a holi barn rhieni a disgyblion. Cynhelir cyfarfodydd a thrafodaethau staff i ddadansoddi'r rhain ac arfarnu cryfderau a chanfod meysydd penodol ar gyfer gwelliannau. Mae'r dadansoddi data ar y cyfan wedi adnabod yn gywir y prif feysydd i'w datblygu.

Mae'r broses hon yn parhau i ddatblygu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ar y cyfan yn dangos bod y rheolwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Serch hynny, mae adrannau o'r adroddiad yn tueddu i fod yn fwy disgrifiadol yn hytrach nag arfarnol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys bron pob un o'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant, a hefyd yn dynodi amser, cyllid, camau gweithredu, personau cyfrifol a'r dull monitro yn briodol. Adolygir y cynllun blaenorol ond nid yw'r sylwadau yn ddigon manwl i'r llywodraethwyr adnabod cynnydd. Mae yma ddeilliannau a dangosyddion llwyddiant ond nid ydynt yn cynnwys targedau meintiol yn ddigon cyson. Mae hyn yn amharu ar rôl y corff llywodraethol i weithredu fel cyfeillion beirniadol a'u gallu i ddwyn yr ysgol i gyfri.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda rhieni a gofalwyr i greu partneriaethau effeithiol. Gwna'r ysgol ddefnydd dda o'r gymuned ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gynyddu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a'u hetifeddiaeth Gymreig.

Mae'r cyswllt gyda'r Cylch Meithrin sydd yn bwydo'r ysgol yn dda iawn ac yn hwyluso trosglwyddiad esmwyth y plant. Mae trefniadau trosglwyddo llwyddiannus yn bodoli hefyd rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol sydd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n helaeth gydag ysgolion eraill y clwstwr ar gyfer hyfforddiant, rhannu arfer dda ac er mwyn safoni a chymedroli asesiadau athrawon. Mae'r tair cymuned ddysgu broffesiynol yn hybu arfer dda mewn darllen, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau darllen yr ysgol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth priodol gyda'r awdurdod lleol sy'n hyrwyddo'r broses o ddatblygu'r ysgol ymhellach.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau dysgu ac addysgu sy'n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r lefel staffio yn briodol a gwneir defnydd da o brofiad ac arbenigedd y staff er enghraifft. Mae'r cydweithio rhwng athrawon a'r staff cynorthwyol yn gryfder.

Gwneir defnydd priodol o amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae'r adeilad, gan gynnwys yr ardaloedd allanol, yn cynnig amgylchedd dysgu deniadol a gwneir defnydd da ohono.

Yn gyffredinol, mae rheolaeth ariannol yn dda ac mae'r penderfyniadau perthnasol wedi eu seilio ar anghenion gwella. O ystyried ei deilliannau, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae niferoedd bychain o ddisgyblion diwedd cyfnodau allweddol yn golygu bod angen gofal wrth ddehongli data.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae cyflawniad y disgyblion mewn perthynas â chyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd) wedi amrywio o 75% i 100% rhwng 2008 a 2011. Yng nghyfnod allweddol 2 mae wedi codi yn sylweddol o 50% i 100% tros yr un cyfnod. Yn gyffredinol mae perfformiad y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn well na'u perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ac yn dangos cynnydd mewn dysgu – (2007 DPC 75%; 2011 DPC 100%).

Mae canran y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad yn wedi cynyddu ac mae'r ysgol bellach yn perfformio'n well na'r teulu a Chymru.

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgolion â chanran tebyg o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 1 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae'r dangosydd pwnc craidd wedi bod yn y 50% uchaf am y tair blynedd diwethaf. Mae'r canlyniadau yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos cynnydd da gan godi o'r 25% isaf i'r 25% uchaf tros yr un cyfnod.

Mae cymariaethau ag ysgolion y teulu y perthyn yr ysgol iddi yn 2011 yn dangos bod yr ysgol wedi perfformio yn is na'r disgwyl o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd a mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 1. Tros bedair blynedd mae'r ysgol wedi perfformio ychydig o dan y disgwyliadau am hanner y cyfnod hwnnw. Perfformiodd disgyblion blwyddyn 6 yn uwch na'r disgwyl o fewn y teulu yn 2011 ym mhob agwedd ond mathemateg. Ar y cyfan, mae canlyniadau'r ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dangos cynnydd da am y ddwy flynedd ddiwethaf o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

Mewn cymhariaeth â chyfartaledd ysgolion Cymru yn 2011 mae'r disgyblion saith oed yn perfformio'n uwch ym mhob pwnc ond mathemateg. Yn gyffredinol, mae eu canlyniadau o ran pynciau unigol yn uwch na Chymru am y mwyafrif o'r amser ac mae'r safonau o ran cyrraedd y dangosydd pynciau craidd yn dangos cynnydd tros bedair blynedd. Mae perfformiad disgyblion 11 oed yn uwch na Chymru ym mhob agwedd yn 2011 ac mae cynnydd da tros bedair blynedd.

Mae deilliannau disgyblion 11 oed sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol iawn gyda'r teulu a Chymru ac mae cynnydd da yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid oes patrwm clir ar gyfer plant saith oed.

Yn 2011 perfformiodd y bechgyn saith oed yn is na'r merched o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg, mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd. Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y ddau ryw mewn o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn saith oed. Ond o ran cyrraedd lefel yn uwch na'r disgwyl, mae perfformiad y ddau ryw yn dueddol o fod yn sylweddol is na'r teulu a Chymru.

Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes llawer o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig. Yn gyffredinol, mae bechgyn yn perfformio'n well na merched o ran cyrraedd y lefelau uwch; mae merched yn perfformio'n is na merched y teulu yn eithaf cyson.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol ym mhob blwyddyn ysgol. Heblaw am fathemateg, prin iawn yw'r pynciau lle y cyrhaeddodd y disgyblion saith oed y lefelau uwch tros bedair blynedd.

Tros gyfnod o bedair blynedd, nid yw'r canran sy'n cyrraedd y lefelau uwch yn Saesneg a mathemateg yn un ar ddeg oed yn cymharu'n ffafriol ac ysgolion tebyg ran prydau ysgol am ddim.

Mae data 2011 yn dangos bod yr ysgol yn perfformio orau o ran y teulu ac yn well na Chymru ym mhob agwedd o lythrennedd Saesneg o ran cyrraedd lefel 4 ac uwch.

Mae safonau llafar disgyblion saith oed yn y Gymraeg yn 2011 yn uwch na'r disgwyl o fewn teulu ond mae safonau darllen ac ysgrifennu yn is. Mae safonau llafar, ac ysgrifennu disgyblion un ar ddeg oed, wedi bod yn uwch na'r teulu am y mwyafrif o'r pedair blynedd ddiwethaf ond mae safonau darllen wedi bod yn is.

Mae data cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn dangos bod yr ysgol yn perfformio yn well na'r teulu a Chymru o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig a'r lefelau uwch ym mhob agwedd o lythrennedd Cymraeg. Tros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r ysgol yn dangos cynnydd amlwg yn neilliannau llafar, darllen ac ysgrifennu.

Mae cynnydd pendant yn y canran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg yn y ddau gyfnod allweddol tros bedair blynedd. Tros y cyfnod hwn, mae'r ysgol wedi perfformio yn well na'r teulu am lawer o'r amser. Serch hynny, nid oes yr un disgybl wedi cyrraedd y lefel uwch yn saith oed am dair blynedd.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 16 o ymatebion i'r holebion gan rieni:

Mae pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac maent yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- bod eu plant yn gwneud cynnydd da;
- bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant;
- bod plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- bod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol ac yn cael cymorth i ymgartrefu'n dda;
- bod yr ysgol yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- bod eu plant yn hoffi'r ysgol; a
- bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae ychydig iawn yn nodi nad ydynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion ac mae lleiafrif yn nodi nad yw disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 31 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ac roeddent yn unfrydol:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith;

- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio; a
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae bron bob un yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Mae ychydig yn credu nad yw plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae lleiafrif yn credu nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda ac nad ydynt yn gallu gwneud eu gwaith.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Tîm |
| Alan Parry | Arolygydd Lleyg |
| Dilys Ellis-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Arwel Owen | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.